29.10.2023

# Neuadd Bentref - Rhiwlas - Village Hall

Rhif elusen cofrestredig 509488

**Amodau Llogi a Defnyddio'r Neuadd**

1. Pan yn cyrraedd yr adeilad rhaid i'r llogwr nodi safleoedd y larymau, diffoddwyr ac allanfeydd tân. Dylid cadw'r allanfeydd tân yn glir pob amser.
2. Ni chaniateir ysmygu yn yr adeilad. Cyfrifoldeb y llogwr yw sicrhau bod pawb yn cadw at y rheol hon.
3. Ni chaniateir diodydd alcohol o unrhyw fath yn y Neuadd heb ganiatad y Pwyllgor Rheoli.
4. Y niferoedd mwyaf a ganiateir yw fel a ganlyn: prif neuadd: 120; ystafell gymunedol: 40. Rhaid i'r un sy'n llogi'r Neaudd adael i'r Pwyllgor Rheoli wybod os oes cynulliad i'w gynnal o fwy na 50 o bobl.
5. Pan yn llogi'r Neuadd dylech sicrhau bod amser gennych i baratoi a chlirio'r adeilad.
6. Rhaid i'r sawl sy'n trefnu llogi'r Neuadd fod dros 18 oed.
7. Os trefnir gweithgareddau gyda phlant, mae angen sicrhau digon o oedolion er mwyn eu goruchwylio.
8. Mae angen caniatad y Pwyllgor Rheoli os oes bwriad i osod offer fel 'casell neidio' yn y Neuadd. Dyma amodau defnyddio castell bownsio yn y Neuadd
9. Y llogwr sy'n gyfrifol am gyflenwi sachau sbwriel, cadachau golchi a sychu llestri.
10. Y llogwr sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr holl ddodrefn ac unrhyw offer arall a ddefnyddir yn cael eu cadw yn eu llefydd priodol.
11. Nid yw'r Pwyllgor Rheoli yn cymryd dim cyfrifoldeb am offer na nwyddau personol sydd yn cael eu gadael yn y Neuadd.
12. Dylid cymryd gofal arbennig o'r llawr. Dylai dodrefn ac offer trymion gael eu cario ac nid eu llusgo dros y llawr. Os collir hylif o unrhyw fath ar y llawr dylid sicrhau ei fod yn cael ei sychu ar unwaith.
13. Rhaid ysgubo'r lloriau'n lân a rhoi pob sbwriel yn y biniau priodol ar ddiwedd pob sesiwn a sicrhau bod y gegin a'r llestri'n lân os defnyddir nhw.
14. Dylid gadael yr holl gyfleuterau'n lân ac yn eu cyflwr gwreiddiol. Bydd y llogwr/llogwyr yn gyfrifol am ad-dalu unrhyw ddifrod a achosir, a hefyd cost glanhau'r Neuadd wedi'r digwyddiad os bydd hynny'n angenrheidiol..
15. Dylid hysbysu'r Pwyllgor Rheoli ynglŷn ag unrhyw ddifrod neu ddiffyg i unrhyw offer.
16. Dylid hysbysu'r Pwyllgor Rheoli os digwydd damwain yn y Neuadd.

**Eithriadau ac addasiadau i'r Amodau**

Mae gan Bwyllgor Rheoli'r Neuadd hawl i wneud eithriadau i unrhyw ran o'r rheolau hyn ac i addasu'r Rheolau ac Amodau o bryd i'w gilydd.